Essex 1833
2594

www.libtool.com.cn

600042224K
33.
www.libtool.com.cn
299.

# CAN NEWYDD:

www.libtool.com.cn

YN YR HON Y DANGOSIR FOD YR

*Amser a'r dull o gyfeillachu â'u gilydd*

SY GAN

**Ieuenctyd yr Oes hon,**

YN LLADRADAIDD, YN ANLLAD, YN DWYLLODRUS,—AC YN HOLLOL AFRESYMOL, ANNGHYFREITHLON, AC ANYSGRYTHYROL; AC HEFYD YN ARWAIN, YN NATURIOL, I'R HOLL BECHODAU CASAF A FFIEIDDIAF, AC I'R BARNEDIGAETHAU TRYMAF YN Y BYD HWN A'R BYD A DDAW:

*Yr hyn sy ddigon eglur*

DRWY YR YSGRYTHYRAU, AC HEFYD ANEIRIF O SIAMPLAU YN EIN GWLAD.

---

GAN BENJAMIN EVANS.

---

Gwedi ei chymeradwyo gan amryw
O WEINIDOGION YR EGLWYS SEFYDLEDIG,
*A rhai o honynt y Beirdd goreu yn Nghymru;*
A chan y Parch. THOMAS PHILLIPS, D. D. Neuaddlwyd;
*A chan Gyfarfod Misol y Trefnyddion Calfinaidd*
YN SIR ABERTEIFI,
A gynnaliwyd yn Llanarth, Gorphenaf y 24 a'r 25, 1833.

---

"A phan oleuodd y boreu, wele Leah ydoedd hi.
Nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd.
Na fydded i chwi gyd-gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlon y tywyllwch.
Ymgedwch oddiwrth bob rhith drygioni.
Llygad y godinebwr sydd yn dysgwyl am y cyfnos.
A'r holl buteinwyr sydd a'u rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân." &c. &c.

---

ABERYSTWYTH:

*Argraffwyd gan Esther Williams, Heol-y-Bont.*

MDCCCXXXIII.

[ENTERED AT STATIONERS' HALL.]

299.

www.libtool.com.cn

# AT Y DARLLENWYR.

*Wrth weled ac ystyried ychydig ar yr amser, y lleoedd, a'r dull o gyfeillachu â'u gilydd sy gan Ieuenctyd ein gwlad, a'r canlyniadau dychrynllyd sydd yn deilliaw o hyny, fe'm tueddwyd i osod yr hyn a ganlyn ger eich gwydd; nid am fy mod yn meddwl ei fod yn berffaith a difai, nac ychwaith yn ddigonol i beri diwygiad a gwaredigaeth oddiwrth y fath bethau ffiaidd ac ofnadwy, yr hyn sydd yn warth mawr i'r wlad yn gyffredin, ac yn waradwydd i rai a elwir yn Gristionogion—a pha faint mwy i rai yn proffesu duwioldeb a gonestrwydd! A chan nad yw yn gymeradwy gan ein Hieuenctyd gadw Duw yn eu gwybodaeth ar y mater hwn, ond yn hytrach ymroi i drythyllwch, am hyny mae Duw yn eu rhoddi hwynt i fynu i wyniau gwarthus, i anmharchu eu cyrph eu hunain, ac i gyflawni pob aflendid yn un chwant.* Rhuf. i. 21–32. Eph. iv. 17–19. *Y neb a ddarlleno yr adnodau hyn, ystyried. Gobeithio gan hyny y bydd hyn fel moddion, dan fendith yr Arglwydd, i ddeffroi ein gwlad yn gyffredinol yn erbyn y bwystfil ofnadwy hwn sydd yn gyru ein Hieuenctyd (bron yn un fintai) tua dinystr a choll edigaeth! Yn enwedig yr wyf yn gobeithio y bydd i bob Enwad crefyddol o'r hyn lleiaf, yn ddiwahaniaeth, fod yn llafurus iawn, drwy gynghori, rhybuddio, a gweddio mwy na mwy am i Dduw fendithio eu llafur. A'r penau teuluoedd hefyd yn gwbl yr un modd; yn nghyda bod yn ymdrechgar iawn i roddi amser gweddus a phrydlon at hyn yma—a heb hyn nis gellir myned yn mlaen yn llwyddiannus. Gan hyny, ymgryfhawn, ymwrolwn, a chydweithredwn; ac yna ni gawn weled a mwynhau y diwygiad, yn wladwriaethol, yn grefyddol, yn deuluol, ac yn bersonol—mewn dedwyddwch tymhorol a lleshad tragywyddol. Hyn yw ewyllys a gwir ddymuniad eich ufydd was,*

B. EVANS.

Lletty John, Gorph. 29, 1838.

www.libtool.com.cn

# *Can Newydd, &c.*

1.

ER amser yr hen Adde, y dyn fu gynta' 'rio'd,
Mae rhywbeth yn naturiaeth, dynoliaeth, byth yn bod ;
Crew'd ef mewn diniweidrwydd a phur santeiddrwydd Duw,
Ond heb 'ymgeledd gymhwys,' nis gall'sai'n hwylus fyw.

2.

Mae'r duedd fyth yn para, yr amser yma o hyd,
Am Asen i'n haddasu, ac i'n cynhesu'n glyd ;
Ond rhyfedd rhan y rhei'ny, a mawr ddaioni yw,
Cael Gwraig heb gam, yn gymhwys, yn ol ewyllys Duw.

3.

A'r ffordd i'w chael yn addas, a thrwy briodas bur,
Yw'n unig 'nol rheolau a deddfau Duw i'w dir :
Am hyn gweddiwn arno, i'n cyfarwyddo o hyd,
Yn mhobpeth a'r a wnelom tra byddom yn y byd.

4.

Fe dd'wed y Ddwyfol 'Sgrythyr, mewn geiriau eglur im',
Bedwaredd o'r Pregethwr, 'dall ungwr anmheu dim,
Mae'n profi drwy resymau mai gwell yw dau nag un ;
'Rwyf finau 'nawr yn gwbl o'r meddwl hyny f' hun.

5.

Sant Paul yn ei Epistol rhagorol at 'r Hebre'd,
Wrth bawb a fedd 'r Ysgrythyr, mewn geiriau eglur dd'wed,
Am bob priodas weddus, mai anrhydeddus yw ;
Ond hyll, ïe'r holl, buteinwyr yn gywir farna Duw.

6.

Er hyny y pechod hwnw a'i glwyf sy'n llanw'n gwlad,
Gan ddiofal blant i ddiafol, drwy rym 'r uffernol had :
Mae ef â'i scîl ysgeler, yn arfer medr maith,
Gael pawb yn blant i'w hunan, a gwneud yr aflan waith.

7.

Peth goreu fedd yn foddion i hudo'r dynion hyn,
Yw'u cael hwy gyd wneud arfer, 'nol swpper garu'n dyn ;
A'i ddyben ar y dibyn, bob gradd, yw enyn greddf,
Gael tori, cyn ystyried, y seithfed gair o'r ddeddf.

8.

Mae'n achos wylo i weled, na chwaith i glywed fod
Un dyn mewn gwlad Grist'nogol dan fath annuwiol nod,
O ddysgwyl am y cyfnos, a dylyn hirnos faith ;
'Does neb ond godinebwyr mewn gwewyr am y gwaith.

9.

Mae'r lledrith hwn fel lladron, a'r gwaetha' o ddynion sydd
Yn turio tai a'u tori, a'u nodi wrth oleu'r dydd ;
Hwy dd'ont o'u ffau â ffugiau ar eu wynebau ma's,
A'u bwriad, cyn y boreu, fydd porthi eu nwydau cas.

10.

A'r dydd pan dêl mae dolur, a gwewyr yn ddilai,
Fel dychryn glyn marwolaeth yw'r alaeth i'r fath rai ;
'Nol syrthio i'r halogrwydd, euogrwydd wed'yn ddaw,
Nes gwasgu'r dyn yn hollol mewn rhyw annhraethol fraw.

11.

Mae heddyw briodasau, oes ddegau'n ddigon gwir,
Yn byw mewn mawr annghydfod, a thrallod ar bob tir,
Nas gwel'sid un o'r iauau, hyd angeu'n fyr neu faith,
Oni buasai i anniweirdeb, godineb, ddechreu'r gwaith.

12.

A chyda hyny hefyd gwnaeth bethau enbyd iawn,
O fewn ein bro a'n bryniau mae'i ddrwg effeithiau'n llawn :
Gwnaeth rai i garu cwrw, a bod yn feddw o hyd,
Nes bod yn llwyr adfydus, anghenus yn y byd.

13.

A gwario tiroedd cyfain, a lleoedd llydain mawr,
Bod wed'yn y gresynaf a'r llymaf ar y llawr ;
Myn'd wed'yn i gardota, ac i ladrata'n wir,
Nes gwneud i'w gyrfa i orphen o dan y crogbren îr !

14.

www.libtool.com.cn

Fe ddygodd i'r fath flinder, do'n sicr lawer un,
Nes tyngu, rhegu, a rhwygo, a mawr ddibrisio'i hun;
Ac ereill i garcharau, dan flin efidiau maith;
A rhai o'u gwlad gartrefol, byth i estronol waith.

15.

Bod maes y nos fu'n achos, yn ddios lawr tro,
I symud rhai ugeiniau i angeu yn ein bro;
Wrth aros maes 'nol chwysu, a gwlychu yn y gwlaw,
Fe gaed clefydau marwol, angeuol maes o law.

16.

Ar filoedd dygodd heintiau, clefydau poethion cas,
Nes drewi o'r bron a braenu, a phydru eu cyrph i ma's:
A marw cyn eu hamser, ie fwy na hanner oes;
A myn'd o'r pla daearol, i ddyoddef bythol loes!

17.

Esgorwyd gan buteiniaid fastardiaid fwy na rhi',
Er cywilydd mawr a gw'radwydd o'r bron i'n broydd ni;
Mae rhai'n yn awr ar blwyfoedd yn lluoedd yn mhob lle,
Yn pwyso'n drwm â threthi, a phoeni gwlad a thre'.

18.

O! gymaint wnaeth o w'radwydd i enw a chrefydd Crist!
Mae heddyw i'r werinos fawr achos bod yn drist;
Gwnaeth rwygiad mewn eglwysydd, mewn gwlad, a threfydd mawr,
Rhai dewr mewn gras, a grymus, yn glwyfus ga'dd i lawr!

19.

Yn Israel gynt bu helynt, aeth lawr o honynt hwy,
'R un dydd dair mil ar hugain, yn gelain dan y clwy':
Fe dyfodd nes cael Dafydd a'i gerdd dan gerydd trwm,
O achos gwraig Urias, anaddas oedd y c'lwm.

20.

Pan fyddo mewn oedfaon, yr addewidion rhad
Yn cael eu dal yn gyson i'r dynion dua' ga'd,
Am faddeu'n holl bechodau drwy rinwedd angeu'r gro's,
Er hyn bydd rhai yn cysgu, o achos caru'r nos!

21.

www.libtool.com.cn

Pwy dd'wed faint y minteioedd sy'n lluoedd wedi eu lladd,
Wrth garu'r nos, puteindra y trecha' arnynt ca'dd;
Maent heddyw'n gelaneddau, er galarnadau maith,
Can's lladdodd hwn, feddyliwn, ei fyrddiwn lawer gwaith!

22.

Pan fyddo'r nos yn nesu, O 'r llawenychu sy,
Gan bawb o'r hen buteinwyr, a'r godinebwyr hy',
I gael eu blysig bleser, dry eto'n chwer'der chwith,
Mewn gwlad heb un drugaredd, ond rhinciau dannedd byth.

23.

Bu llawer llanc yn Nghymru yn caru foreu a nawn,
Yn gu heb gas, yn gyson, am flwyddau'n ffyddlon iawn;
Dangosai i'r ferch yn ebrwydd serchogrwydd goreu 'rio'd,
Anwyldra digyffelyb, ei well 'doedd bosib' bod.

24.

Ac hefyd caid gwobrwyon, a rhoddion gan y gwalch,
Bob math, y goreu a garai, nes byddai'r ferch yn falch;
Ni choeliai yn ei chalon nad diddrwg, gwirion, gwar,
Oedd ef, a'r mab didwyllaf, ffyddlonaf ar y dda'r.

25.

Ai gyd ag ef i'r gwely, a hyny yn nyfnder nos;
Yr hyn sy ddigon eglur i'r 'Sgrythyr lân yn gro's:
A phob yn radd, debygwn, meddyliwn gwnai'r un llaith,
I hudo'r anwyl gariad gyflawni'r anllad waith.

26.

'Nol hyny troe y ffalsiwr yn fradwr, twyllwr mawr,
Y gwaetha' o neb 'rwy'n coelio fu'n rhodio daear lawr;
Adroddai gas gelwyddau, a holl wendidau'r ferch,
'R un orea gynt o garai, lle unwaith rhoddai'i serch!

27.

Ond wed'yn ei difrio, a'i gwaradwyddo'n gas,
Rhoi arni bob enllibau, a'r enwau casaf ma's;
'Nol iddi, druan, ddechreu i newid lliwiau a llun,
Cael fe allai 'nol puteinio'i llofruddio gan yr un!

www.libtool.com.cn

28.

Ai'r llanc 'nol hyn i ddianc o grafanc deddf y tir,
Heb gosp am waith mor 'sgeler, a hyn dros amser hir,
Trwy dyngu mewn brawdlysoedd ar gyhoedd gelwydd noeth;
Am hyn bydd eto gofio pan elo'r byd yn boeth.

29.

A chyn i'r yrfa orphen, a myn'd o'r ddae'ren faith,
Daeth pwysig farn dymhorol, arteithiol am y gwaith;
Er dianc rai blyneddau ar holl gyfreithiau'r llawr,
Daeth Duw o'r nef a'i gyfraith, a'i heffaith fu mor fawr

30.

Ar lawer nes gwallgofi gan rym y c'ledi hwn,
Oedd wasgfa ar eu lwynau a'u cydwybodau'n bwn;
Euogrwydd fel mynyddau o bwys, a fflamiau tân,
Heb arwydd o ymwared i'w weled byth yn mla'n!

31.

Ond syrthio i lwyr anobaith, lle mwyaf diffaeth sy,
Sef troell neu ran o'r trallod sy 'ngwaelod uffern ddu;
Fe lethodd mewn fath ddychryn, do'n sydyn lawer un,
Nes gwneud mewn amryfusedd ryw ddiwedd iddo ei hun.

32.

Gwnaeth llawer grogi eu hunain, nes bod yn gelain gas,
A llawer gym'rodd wenwyn, o'r byd i'w dirwyn ma's;
Aeth llawer i afonydd, a rhai dros greigydd 'lawr,
Nes gorphen 'r annuwioldeb yn nhrag'wyddoldeb mawr!

33.

Gwnaeth llawer dori eu gyddfau a'r prif wythienau gyd,
Nes darfod yn ddychrynllyd eu symud maes o'r byd;
A llawer ddarfu saethu eu hun, a brathu eu bron,
Nes gwneud o'u gwirfodd achos i ado'r einioes hon.

34.

Gan rym cydwybod euog, gynddeiriog, bigog, gas,
Oedd dan eu bron yn rhuo, ac yn bytheirio i ma's
Gnofeydd a chyhuddiadau, a dychryniadau mawr,
Nes danynt syrthio'n hollol dan fythol lid i lawr!

35.

www.libtool.com.cn

'Peth ddygodd fath euogrwydd, oedd mewn anlladrwydd fyw,
Heb feddwl am y cyfri', nac ofni deddf na Duw,
Nes dryllio yn ddisymwth, 'nol bygwth lawer gwaith,
Fel na b'o meddyginiaeth, nac iachawdwriaeth chwaith.

36.

Ond gwraidd yr holl bechodau, a'u canlyniadau syn,
Sy o ddechreu'r Gân i'w diwedd, fu am y trosedd hyn,
Sef caru'r nos mewn gwely, mae hyny yn warth i'n tir,
Mae'n ddull a phryd anweddus, cywilyddus yw yn wir.

37.

Mae'n arwain mor naturiol, fel ffrwd lifeiriol gref,
I'r holl bechodau casaf, ffieiddiaf dan y nef:
Paham na chredai'r meibion, a'r merched gwirion llaith,
Eu bod hwy'r nos o lawer rhy dyner at fath waith!

38.

Mae'r dull o gyfeillachu mewn Gwely, ar hyd y Nos,
Nac mewn un man pryd hwnw, yn dwyn rhyw chwerw lo's;
A sangu uffern isod a'i thrallod yn ddiau,
Os na wna Duw o'i fawredd yn rhyfedd drugarhau.

39.

Os darfu neb i *gario*, neu rodio'r tân yn noeth,
Heb losgi'i draed a'i fynwes oll yn yr eirias poeth;
Mwy rhyfedd os achubwyd, os cadwyd neb y nos,
Wrth garu, gan Dduw Iago, heb syrthio yn y ffos!

40.

Chwi welwch 'nawr yn amlwg, ond O! mae'n olwg syn,
'Daw dyn yn rhydd i bobpeth wrth wneud yr unpeth hyn;
'R hen ddiafol, farwol effaith, bob awr am anrhaith sydd;
Wrth gym'ryd ganddo'ch hudo, gwnewch gofio'r llid a fydd!

41.

Dyn mochaidd, anifeilaidd, dyn ffiaidd, claidd, cas,
A wnaiff ei gâr, un gywrain, a'i wraig yn buten ma's,
Cyn myn'd mewn brwd briodas, sydd urddas addas fraint,
Er byw mewn glân ddiweirdeb, a rhag godineb haint.

42.

Mae'n hollol afresymol, anysgrythyrol yw,
Mae'n tori parch ac urddiad, cymeriad dynol ryw;
'R un fath yn wir a lladron yn union yw pob rhai,
F'o o un i ddeg neu chwaneg, yn rhedeg 'ddeutu tai!

43.

Y Dwyfol gyfarwyddyd rhag chwantau ie'nctyd, yw
Ymgadw 'mhell oddi wrthynt, a rhagddynt ffoi at Dduw
Am ras i fyw yn dduwiol, er pob rhyw gnawdol chwant,
A dylyn ffordd cyfiawnder, 'r hyn fethodd llawer cant.

44.

'Dwy'n meddwl dim fod Pedr ar fedr gwadu Crist,
Ond canlyn pell wnaeth hwnw i wylo'n chwerw drist;
Fel hyny yn ddiattal mae Belial wrthi o hyd,
I gael heb drais i drosedd a llygredd bawb yn nghyd.

45.

Am hyny, feibion, gwyliwch, gochelwch 'r hon a ddêl
A'i genau'n llyfn, a'i gwefus yn felus fel y mêl;
Trodd lawer â'i deniadau, a'i haml eiriau teg,
Rhai'n archolledig gwympodd, hi laddodd lawer deg.

46.

A'i diwedd drodd yn ddineod, yn wermod, sorod sur,
Fel sarph yn ei brathiadau, pigiadau, poenau a chur:
Ond 'nawr awn at yr Iesu gael gras i dynu'n gro's
I'n hanian felldigedig, 'n enwedig ar hyd nos!

47.

'Rwy'n addef bod yn anodd, heb nerth goludoedd gras,
I roddi hebio'n union ein holl arferion cas;
Ond gwell bod yn amddifad o'r fraich a'r llygad de',
Na chael o'u hachos boeni, a cholli byth y ne'.

48.

Anffrwythlon waith tywyllwch, O ciliwch rhagddo'n hwy,
Anlladrwydd a chydorwedd boed diwedd arnynt mwy;
Ymddygwn yn fon'ddigaidd, yn weddaidd, hyny fydd
Yn rhodiad anrhydeddus a gweddus wrth liw dydd.

49.

'Daiff neb i ffair na marchnad y nos, gael dillad clyd,
Nac unmath o 'nifeiliaid, ond ffyliaid mwya'r byd ;
Yn awr wrth ini edrych, pob rhai yn chwennych sydd
I brynu pob ceiniogwerth wrth brydferth oleu'r dydd.

50.

Fe ddengys hyn fod gwaeledd a llygredd dynol ryw,
Yn waeth nag un creadur mae'n eglur greodd Duw,
Pan aiff, wrth gael ei hudo a'i dwyllo gan y ddraig,
Mewn t'wllwch, dan ei ddwylo, y nos i geisio Gwraig !

51.

Os ceir un ddoeth, rinweddol, annhraethol yw ei chlod,
'Does yn y byd mor werthfawr a chlodfawr a hi'n bod :
Ond os y nos eir 'chwilio neu geisio un heb wg,
Trwy d'wllwch du a budredd, pa ryfedd cael un *ddrwg*.

52.

Ca'dd Jacob gynt ei dwyllo a'i hudo i ryw ffos,
Ac fe ga'dd hirfaith benyd am gym'ryd gwraig y nos ;
Meddyliodd y cai Rahel fwyn dawel yn ei ffrost,
Ond beth oedd ganddo'r boreu ond Leah 'r llygaid tost !

53.

Ca'dd hyn yn gerydd cyhoedd tra buodd yn y byd ;
'Sgrifenwyd ef yn rhybudd i'r gwledydd oll i gyd :
Am hyny'r ie'nctyd cofiwch os rhodiwch 'nol eich chwant,
Na ddiengwch heb ryw ffiangell, ddim ambell un o gant.

54.

A chwithau ferched siriol, anfeidrol fydd eich braint
O gadw'ch hun yn ddiwair, heb gellwair â'r fath haint ;
Ond ffoi rhag llygredigaeth, a'r brofedigaeth pan
B'o diafol yn ei gosod—mae'r cnawd yn hynod wan.

55.

Heb feddwl cyfeillachu neu garu'r nos yn hwy,
O ! ferched bach, atolwg na wnewch y mawrddrwg mwy ;
Ond caru'r dydd yn unig yw y buredig drefn
Sy'n ol duwioldeb perffaith, a chyfraith wrth ei chefn.

56.

www.libtool.com.cn

Boed ichwi, anwyl ferched, ystyried hyn mewn pryd,
Fod twyll yn y ffyddlona' o feibion Adda i gyd;
Am hyny rhag eich llithio, a syrthio'n wael eich llun,
Cyn caru mewn tywyllwch, dewiswch fod heb un.

57.

Os gwnewch chwi hyn o ddifri', daioni'r tir fwytewch,
Ond cleddyf byth a'ch difa os para'n gyndyn wnewch;
Rhaid myn'd i'r ffwrn uffernol, a byw mewn bythol boen,
Mewn cadwyn dyn, a cherwyn o wenwyn llid yr Oen!

58

Ymdrechwch, ben teuluoedd, i gyd yn lluoedd llon,
Nid mathru mwy ond meithrin yn ddibrin 'r arfer hon,
Trwy roddi amser prydlon, yn ffyddlon heb nacau,
I garu'r dydd, er ffyniant a llwyddiant i barhau.

59.

Cymhellwch eich morwynion, eich plant, a'ch gweision oll,
'Wneud caru'r dydd yn arfer, cyn swpper yn ddigoll;
Dangoswch fod boddlonrwydd, serchogrwydd i bob rhai;
Os na cheir hyny, cofiwch drwy d'wyllwch d'ont i'ch tai.

60.

A'u holl ymadrodd ofer, a'u 'sgeler anllad waith,
A wneir yn eich anneddau a'ch teiau'n hyd eich taith,
I chwi bydd rhai'n i'w rhifo yn gryno'r dydd a ddaw,
Os na chewch faddeu'n hollol, cewch fythol boen a braw.

61.

Doed pawb yn awr yn wrol, gael rhwystro'r diafol du
I hudo'r werin wirion i'r cyffion yma'n llu;
Pe b'ai pob un yn ddyfal gael attal hyn o wawd,
Eu braint yn sicr fyddai, er fe allai'n groes i gnawd.

62.

'N enwedig pob pen teulu, heb fethu mwy o hyd,
Ond ymdrech hwy â'r ie'nctyd, gael ymlid hyn o'r byd;
Heb ddadleu gwag resymau, ond geiriau i gyd bob darn
A ddalio dân a phurdeb, dysgleirdeb goleu'r farn.

63.

www.libtool.com.cn

Deffrowch, bob rhyw grefyddwyr, pregethwyr, gwylwyr glew,
Cynghorwch, de'wch i weddio am ladd a chwympo'r llew;
A'r ie'nctyd hardd, bob graddau, de'wch chwithau o un fryd,
Cawn wed'yn arno goncwest heb orchest yn y byd.

64.

A thyna dorf luosog o arfog ddynion ddaw,
O gymysg byd ac eglwys, yn gymhwys fel un llaw,
Sef 'rhei'ny bawb a lithrodd, a gwympodd ar y ma's,
O hyfryd fryn diweirdeb i bwll godineb cas.

65.

'Nawr 'rhai'n a gŷr eu goreu o blaid y blodeu glân,
Rhag myn'd ar goll i gellwair, fel llawer mil o'r bla'n;
Rho'nt amser a diddigrwydd, serchogrwydd, heb ddim cro's,
Can's gwyddant hwy drwy brofiad mai anllad iawn yw'r nos.

66.

A Bibl ac addewidion, bendithion, rhoddion rhad,
A'n Brenin a'i gyfreithiau, rheolau tref a gwlad,
A gweddi'r holl dduwiolion, angelion os bydd raid,
Ac oll fedd Duw ei hunan—y cyfan fydd o'n plaid!

67.

O Arglwydd Dduw'r Jehofa, rhagflaena'r bwystfil ladd,
Na thurio'r byd a'th eglwys, yn gymhwys fel y badd;
Dod arno gadwen gadarn yn ngwaelod uffern drist,
Doed hyn i ben yn ebrwydd, drwy'n Harglwydd Iesu Grist.

68.

Fel b'o i'r byd arbedol lonyddwch hollol mwy,
Gan hwn y baich o bechod, sy'n awr yn hynod glwy':
A gras ein Harglwydd Iesu fu'n prynu ar y pren,
Cymdeithas Duw a'i Ysbryd in' hefyd byth. Amen.

DIWEDD.

E. WILLIAMS, ARGRAFFYDD, ABERYSTWYTH.

www.libtool.com.cn

www.libtool.com.cn